

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# PWLS TENANTIAID AR EFFEITHLONRWYDD YNNI A CHYNHESRWYDD FFORDDIADWY

## CRYNODEB WEITHREDOL

MAI 2024
WWW.TPAS.CYMRU

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

pobl
NODDWYR LLAIS Y TENANT

# TABL CYNNWYS


- Trosolwg
- Trosolwg Demograffig
- Canfyddiadau Allweddol
- Argymhellion




# TROSOLWG

Nod Cymru yw cyflawni Sero Net erbyn 2050, taith sy’n gosod tai fforddiadwy a chynaliadwy yn greiddiol iddi. Nid dim ond arloesi a thechnoleg yw'r ymdrech i gyrraedd y nod hwn—mae'n ymwneud yn sylfaenol â phobl.

Mae deall ymgysylltiad tenantiaid yn allweddol i lwyddiant Datblygiad Tai Carbon Isel. Mae’r adroddiad hwn yn casglu mewnwelediadau gan denantiaid ledled Cymru, gan archwilio eu profiadau go iawn gyda thai, effeithlonrwydd ynni a’u barn ar atebion sero net a chyfathrebu.

Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Mawrth 2024
Er mwyn ysgogi arloesedd ac ehangu dylanwad ein harolwg, rhoddwyd dull deinamig ar waith gennym. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio pŵer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol, gan gynnwys Meta, X, TikTok a LinkedIn, ynghyd ag allgymorth personol i landlordiaid.

# TROSOLWG DEMOGRAFFEG

Gwelodd yr arolwg gyfranogiad gan dros 750 o denantiaid ar draws y ddwy sir ar hugain yng Nghymru. Roedd demograffeg allweddol yn cynnwys:

- **Dosbarthiad Oedran:** ymatebion cryf gan dai cymdeithasol, gydag ymgysylltiad nodedig gan denantiaid iau yn y sector rhentu preifat
- **Amrywiaeth Ethnig:** Cyfradd ymateb gref gan nifer o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- **Daliadaeth Tai:** Cynrychiolaeth sylweddol o gymdeithasau tai, awdurdodau lleol, tai â chymorth a'r sector rhentu preifat.

TPAS CYMRU
TENANT PULSE
PWLS TENANTIAID

http://www.tpas.cymru/pulse

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Costau Uchel, Pryderon Uchel:** Mae 72% o denantiaid yn adrodd bod costau gwresogi yn anfforddiadwy, sy'n arwydd o angen brys i weithredu.

**Bwlch Cyfathrebu gan Landlordiaid:** Dywedodd 88% o denantiaid nad ydynt wedi derbyn gwybodaeth gan landlordiaid ar welliannau effeithlonrwydd ynni.

**Rhaniad Dewis Dysgu:** Dewisiadau amrywiol ar gyfer dysgu am systemau ynni, gyda thenantiaid iau yn ffafrio adnoddau digidol a thenantiaid hŷn yn ffafrio dull traddodiadol.

**Pryderon Economaidd sy’n Gysylltiedig â Buddsoddiadau Ynni:** Mae amheuaeth amlwg ynghylch buddion economaidd buddsoddiadau ynni (e.e. a fydd arbedion ynni i’r tenant yn gorbwyso costau uwchraddio ynni-effeithlon neu renti uwch)

**Ymdrechion Cadwraeth Dŵr a Chyfyngiadau Gofod:** Roedd 72% o ymatebwyr o blaid gosod casgenni dŵr ar gyfer cadwraeth dŵr. Ac eto, mae pryderon fel heriau byw ar y cyd, cynnal a chadw, risgiau iechyd, a chyfyngiadau corfforol yn amlygu’r angen am atebion wedi’u teilwra i ddiwallu anghenion amrywiol tenantiaid.

**Ymwybyddiaeth a Gwybodaeth Isel o Raddau EPC:** Er bod mwyafrif helaeth (92%) wedi gweld Siart Perfformiad Ynni (EPC) o'r blaen, dim ond 29% sy'n gwybod sgôr effeithlonrwydd ynni eu cartref, sy'n awgrymu nad yw ymwybyddiaeth o reidrwydd yn gyfystyr â deall.

**Pryderon Mabwysiadu Mesuryddion Clyfar:** Canfu’r arolwg fod gan 61% o’r ymatebwyr fesurydd clyfar wedi’i osod. Fodd bynnag, mae 19% yn gwrthsefyll defnyddio'r dechnoleg hon. Mae 20% ychwanegol yn agored i'r syniad ond yn ceisio mwy o wybodaeth i oresgyn eu petruster. Mae rhwystrau cyffredin yn cynnwys materion technegol, cyfyngiadau gofod, a diffyg eglurder ar fanteision ac ymarferoldeb mesuryddion clyfar.

# ARGYMHELLION

**Cynllun Cydweithredol:** Cydweithio rhwng landlordiaid a thenantiaid i ddatblygu cynllun cyfathrebu clir ar gyfer SATC, Sero Net, a mentrau cynhesrwydd fforddiadwy, gan ddefnyddio arferion gorau.

**Adnoddau Tenant-Ganolog:** Ymgysylltu â thenantiaid i greu deunyddiau hawdd eu defnyddio i'w harwain wrth gynnal a chadw uwchraddio ynni ar ôl gosod, gan sicrhau manteision effeithlonrwydd ynni hirdymor.

**Partneriaethau ar gyfer Cymorth:** Partneriaethau gyda sefydliadau cyfrifol i roi cymorth technegol cynhwysfawr ac arweiniad i denantiaid ar fesuryddion clyfar a thechnolegau ynni-effeithlon eraill

**Goresgyn Heriau:** Mynd i'r afael â rhwystrau ymarferol, megis gosod casgenni dŵr mewn mannau byw a rennir, trwy archwilio atebion y gellir eu haddasu wedi'u teilwra i anghenion tenantiaid.

**Cyfleu** Manteision: Amlygu manteision economaidd rhaglenni cynhesrwydd fforddiadwy i denantiaid a'r economi leol, gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn ac astudiaethau achos i egluro arbedion posibl.

**Gwrando ac Ymgysylltu:**
Mae angen i landlordiaid wrando ar denantiaid gan eu bod yn adnabod eu cartrefi.

> "Nid y gwresogi yw'r broblem yma ar gyfer lleihau ynni. Y ffenestri yw'r broblem. Mae'r ffenestri yn fframiau metel hen iawn gyda gwydro dwbl tenau iawn, felly nid ydynt yn effeithlon."

# CEFNOGAETH TPAS CYMRU:

Mae TPAS Cymru wedi ymrwymo i'ch cefnogi i roi'r argymhellion hyn ar waith, gan sicrhau atebion tai cynaliadwy a chynhwysol yng Nghymru.

## RYDYM YMA I'CH CEFNOGI CHI!

TPAS CYMRU
TENANT PULSE
PWLS TENANTIAID

Awdur: Akshita Lakhiwal
Cefnogwyd gan: David Wilton
Hyrwyddir gan: Eleanor Speer

Am unrhyw ymholiadau
Akshita@TPAS.Cymru